**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies MS

Cadeirydd

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Senedd Cymru

27 Ebrill 2023

Annwyl Huw,

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, hoffem roi gwybod ichi fod cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig wedi'i gynnal ar 17 Ebrill 2023.

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Mark Spencer AS y DU, y Gweinidog Bwyd, Ffermio a Physgodfeydd. Hefyd yn bresennol yr oedd Alistair Jack, AS y DU, Ysgrifennydd Gwladol yr Alban; James Davies AS y DU, Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru; Mairi Gougeon ASA, Ysgrifennydd y Cabinet dros Faterion Gwledig, Diwygio Tir a'r Ynysoedd; Lorna Slater ASA, Gweinidog Sgiliau Gwyrdd, yr Economi Gylchol a Bioamrywiaeth; a Norman Fulton, y Dirprwy Ysgrifennydd Bwyd, Grŵp Ffermio DAERA yn absenoldeb y Gweinidog dros Ogledd Iwerddon a'r Ysgrifennydd Parhaol.

Rydym am fynegi unwaith eto ein siom a'n rhwystredigaeth nad oedd yr Ysgrifennydd Gwladol yn bresennol. Mae ei diffyg presenoldeb wedi gostwng ansawdd y cysylltiad rhyngom dros y chwe mis diwethaf, felly rydym wedi rhoi gwybod i'r cyfarfod na fydd Llywodraeth Cymru yn bresennol yn yr un nesaf os na fydd yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn bresennol.

Trafodwyd y Cynllun Dychwelyd Ernes. Roeddem wedi disgwyl diweddariad gan Defra ar hynt cais Llywodraeth yr Alban am gael eu heithrio o Ddeddf y Farchnad Fewnol, ond ni chafwyd mohono. Pwysodd Llywodraeth yr Alban fod yr eithriad yn fater o frys.

Trafodwyd wedyn y gwaith sy'n mynd rhagddo ar Gyfraith yr UE a Ddargedwir a phwysleisiwyd yr angen am drafodaeth drylwyr a phroses gydsynio gytûn.

Yna siaradwyd am y prinderau bwyd diweddar a phroblemau ynghylch diogelu cyflenwadau bwyd. Er bod y cyflenwadau yn ôl fel roedden nhw, mae gennym bryderon o hyd ynghylch diogelwch cyflenwadau yn yr hirdymor oherwydd y pwysau ar y farchnad lafur, y rhyfel yn Wcráin a'r newid yn yr hinsawdd. Cytunwyd i barhau i gydweithio ar hyn tua'r dyfodol.

Yna cawsom ddiweddariad gan Defra ar Fframwaith Windsor a sut y byddai'n effeithio ar ein portffolio. Gwnaethon ni drafod pryderon ynghylch y ffaith bod angen i fusnesau wneud newidiadau erbyn 1 Hydref.

Yn olaf, roedd nifer o eitemau o dan 'unrhyw fater arall' gan gynnwys Partneriaeth Amaeth y DU, y Bil Rheoli Cymorthdaliadau, Cytundeb Partneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel, y cytundeb fframwaith pysgodfeydd diweddar ag Ynysoedd Ffaro a chynllun Lloegr ar gyfer tagio gwartheg.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Llun, 22 Mai.

Caiff hysbysiad am y cyfarfod ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru yn https://www.gov.uk/government/publications/communique-from-the-inter-ministerial-group-for-environment-food-and-rural-affairs.

Cofion,

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales , and Trefnydd**

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newis Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.